Recriwtiwch ein Myfyrwyr a'n Graddedigion

100
1920~2020

Prifysgol Abertawe
Swansea University




> “ MAE'R PROSIECT HWN WEDI EIN GALLUOGI I GYFLAWNI MEWN MWY O YSGOLION CYNRADD LEDLED ABERTAWE, YN OGYSTAL Â GALLUOGI MYFYRWYR AR LEOLIAD SPORTSPIN I ARDDANGOS EU SGILIAU ”

# ASTUDIAETH ACHOS – SPORTSPIN

Datblygu Chwaraeon Cyngor Abertawe

# Doniau sy'n Ysbrydoli

## Cefndir

Gwnaeth Adran Datblygu Chwaraeon Cyngor Abertawe wneud cais am gymorth i gyflwyno rhaglenni mewn cymunedau lleol.

Mae'r Adran Datblygu Chwaraeon yn gyfrifol am gyflwyno sesiynau, gweithgareddau a digwyddiadau chwaraeon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd dewisol, yn ogystal â sefydliadau chwaraeon gwirfoddol ledled Abertawe.

## Mynd i'r Afael â'r Her

Gwnaeth Academi Cyflogadwyedd Prifysgol Abertawe bartneru ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe, Chwaraeon Abertawe a Chyngor Abertawe i sefydlu prosiect 'SportSPIN' unigryw – interniaeth wyth wythnos â thâl i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn hyfforddi chwaraeon fel gyrfa ar ôl graddio.

Yn rhan o'r prosiect, gwnaeth tri myfyriwr o Brifysgol Abertawe, Mali Colleredo, Hugo Vivash a Ffion Hopkins, gynorthwyo hyfforddwyr chwaraeon cymunedol Cyngor Abertawe i gyflwyno rhaglenni mewn ysgolion a chymunedau lleol, am ddeufis, yn rhan-amser, ochr yn ochr â'u hastudiaethau.

## Canlyniadau Llwyddiannus

O ganlyniad i'r prosiect, galluogwyd Cyngor Abertawe i gyflwyno mwy o sesiynau mewn mwy o ysgolion cynradd ledled Abertawe, gyda myfyrwyr ar leoliad SportSPIN yn cynnal sesiynau pêl-droed, pêl-rwyd a sesiynau amlsgiliau ar gyfer 196 o ddisgyblion ar draws un ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd dros gyfnod o wyth wythnos.

Yn ogystal â bod o fudd i Gyngor Abertawe, gwnaeth y prosiect hefyd alluogi myfyrwyr ar leoliad SportSPIN i ennill profiad gwerthfawr a gwella eu sgiliau cyn dechrau ar yrfaoedd ym maes hyfforddi.

> “Mae lleoliad SportSPIN wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen gwaith o'r fath a'r effaith y gall ei chael. Mae'r prosiect hwn wedi ein galluogi i gyflawni mewn mwy o ysgolion cynradd ledled Abertawe, yn ogystal â galluogi myfyrwyr ar leoliad SportSPIN i arddangos eu sgiliau.”
>
> *Robyn Lock, Swyddog Pobl Ifanc Actif, Cyngor Abertawe*

> “Gwnaeth y lleoliad ddysgu i mi fod hyfforddi yn yrfa rwyf eisiau ei dilyn a'i bod yn yrfa gwerth chweil. Rhoddodd SportSPIN y cyfle i mi weithio gyda hyfforddwyr hynod gymwysedig a oedd yn ddefnyddiol iawn er mwyn casglu syniadau ynghylch sut i gynnal sesiynau a sut i fod yn hyfforddwr amryddawn. Mae'r lleoliad wedi fy annog yn fwy i gwblhau fy mathodynnau hyfforddi pêl-droed oherwydd rwy'n gwybod mai dyma'r llwybr gyrfa rwyf eisiau ei ddilyn.”
>
> *Mali Colloredo*

Os credwch y gallai'ch sefydliad chi elwa o gynnig lleoliad gwaith i fyfyriwr, cysylltwch â ni

01792 606060
business.enquiries@abertawe.ac.uk
**www.abertawe.ac.uk/dawn**